# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Ionawr 2023 – Cyfrol 8– Rhifyn 4


## Cyfrannu at fywyd y pentref



Diolch i Ysgol Bryn Clwyd am wahodd y pentrefwyr i'w cinio Nadolig. Mae'r digwyddiad blynyddol hwn yn sicr yn gymorth tuag at y nod o helpu'r disgyblion i gyfrannu'n llawn i'r gymuned maen nhw'n byw ynddi. Dymuniadau gorau i bawb yn yr ysgol ar gyfer 2023.

## Blwyddyn Newydd Dda

Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr, a diolch i bawb sydd wedi cyfrannu dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn ddyledus i'r criw bach o bobl sy'n sicrhau ein bod yn mynd i'r wasg bob mis. Helpwch ni i gadw mewn cysylltiad â'n gilydd fel y gallwn lenwi'r *Llais* ag erthyglau hwyliog a diddorol.

Gan obeithio y bydd gennym ni i gyd lawer i'w ddathlu yn 2023.

*Ruth Griffith,*
*Cadeirydd, Pwyllgor y Llais*




Ysgrifennodd y plant iau yr ysgol ddilyniannau i'r stori *The Snowman* a gwneud llyfrau â darluniau ohonyn nhw. Wedyn eu lapio nhw fel anrhegion Nadolig a'u danfon i gartrefi a ddewiswyd ar hap yn y pentref. Roedd yr ymateb cadarnhaol gan y gymuned yn aruthrol, gyda llawer o negeseuon hyfryd ar Facebook, galwadau ffôn i'r ysgol, ac ymweliad gan Mrs Duffy i ddiolch am y llyfr a gafodd hi. Dyna ddechrau hyfryd i'r Nadolig!

# Pytiau newyddion y pentre




**Llongyfarchiadau...**
i Chris Williams (yn y canol) a'i ffrindiau ar gwblhau marathon Valencia, gan godi arian i'r Motor Neurone Disease Association. Mae'r cyfanswm mae Chris wedi'i godi hyd yma dros £4000;
i John a Kelly Morris, Pen Isa'r Waen Cottage, ar enedigaeth Edward John. Hefyd i'w nain a thaid balch, Emyr ac Anwen Morris, a'i hen-ewythr, Eurwyn Davies;
pwyllgor prosiect Siop Gymunedol a Swyddfa Bost Llandyrnog ar sicrhau £200K o gyllid gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.
**Croeso** i Richard a Llinos Longstaff a'r teulu i Ffin Gaer, ac i Charlotte Matthews i'r Stabal, Llangwyfan. Dymunwn yn dda i Dafydd a Jackie a'r teulu yn eu cartref newydd, Erw Frân, ac i Carol Bellis, gynt o Erw Frân, yn ei chartref newydd yng Ngellifor.
**Dymuniadau gorau** i Penelope Todwick, merch Barbie Major, Llawog Isa, yn dilyn ei damwain; ac i Alun, Llys Aled, yn dilyn ei driniaeth yn yr ysbyty.
**Cydymdeimlwn** ag Adrian Evans a'r teulu, Nant y Mynydd ar golli tad Adrian, a oedd yn byw yn Llanrug;
â Catherine ac Edwin Howarth, Forrest Cottage – Catherine wedi colli ei mam a oedd yn byw ym Manceinion;
John a Mandy Morgan, Parc Ty,n Llan – John wedi colli ei fam a oedd yn byw yn Sir Fôn.

Heriodd y Cyng Merfyn Parry blant cynradd Llandyrnog i ddylunio poster 'baw cŵn'. Yr enillydd oedd Scarlett Tynan a bydd ei phoster yn cael ei lamineiddio a'i osod mewn mannau penodol o amgylch y plwyf.



**Townsend Supplies**
**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**
**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| 3ydd | 7pm | Cyfarfod pwyllgor Llais Llandyrnog |
| 10fed | 10am | Clwb llyfrau |
| 18fed | 2pm | Tuesday Club |
| 23ain | i'w gadarnhau | Cwiltio |
| 24ain | 10am | Clwb llyfrau |

*I logi'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Mrs Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk*

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| 17eg | 5.30pm | Brownies |
| 17eg | 7.30pm | Côr Nantclwyd |
| 24ain | 5.30pm | Brownies |
| 24ain | 7.30pm | Côr Nantclwyd |
| 28ain | 10am | Bore coffi tuag at Eglwys St Tyrnog |
| 31ain | 5.30pm | Brownies |
| 31ain | 7.30pm | Côr Nantclwyd |

*I logi Neuadd y Pentre, ffoniwch Mrs Wyn Wilson, 01824 790447*

**Gwasanaethau mis Ionawr yn eglwys St Tyrnog**

| | | |
|---|---|---|
| 1af | 11.15 | Cymun bendigaid |
| 8fed | 11.15 | Boreol weddi |
| 15fed | 11.15 | Boreol weddi |
| 22ain | 11.15 | Cymun bendigaid |
| 29ain | 10.30 | Gwasanaeth yr Ardal Genhadu, Trefnant |




CÔR NANTCLWYD

Côr newydd sbon yn ardal Rhuthun a Dinbych ydy Côr NantClwyd. Cafodd ei sefydlu yn ôl ym mis Medi gan griw o ffrindiau oedd yn awyddus i ddod at ei gilydd i gael hwyl, cymdeithasu a chanu. Mae'n gôr i rai dros 30, côr 4 llais, ac rydym yn edrych ymlaen at ei weld yn mynd o nerth i nerth dros y misoedd nesa.

Dechreuodd y côr ymarfer yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr, ond buan iawn roedd rhaid mynd ati i edrych am le mwy, oherwydd roedd gymaint o ddiddordeb, aeth nifer yr aelodau dros 140.

Buom yn ffodus iawn o gael cadarnhad y byddai modd i ni ymarfer yn Neuadd Llandyrnog bob nos Lun, ac felly rydym yn ddiolchgar iawn i breswylwyr Llandyrnog am eu cefnogaeth.

Mae croeso i unrhyw un dros 30 i ymuno â'r Côr.

*Angharad Rees*

*Ysgrifenyddes*



*Mae golwg mwynhau arnyn nhw i gyd!*

# Tîm pêl-droed Llandyrnog Utd.

Helô bawb, mae'r adeg honno o'r flwyddyn wedi dod eto pan dwi'n cael cyfle i roi ychydig o sylwadau am ein clwb a sut hwyl rydyn ni'n ei gael, wrth i ni ddechrau blwyddyn newydd.

Mae'r tymor hwn yn sicr wedi bod yn anwadal, ac er fy mod yn meddwl ein bod wedi gwella mewn ambell agwedd, rydyn ni wedi'n siomi ein hunain mewn agweddau eraill. Ond peth felly ydy pêl-droed!

Fe ddechreuon ni'r tymor yn wael, gan golli gemau'r cystadlaethau cwpan, ond fe gawson ni gemau gwych yn y gynghrair. Dyma'n bara menyn ni, ond mae'n rhaid i mi gyfaddef, rwyf wrth fy modd yn gwneud yn dda yng nghystadleuaeth y cwpan, felly mae colli yn rowndiau cynnar y gystadleuaeth yn boenus iawn.

Y tymor hwn, daeth Roger Jones yn ôl fel aelod ychwanegol o'r staff hyfforddi. Rwyf wedi gweithio gyda Roger yn y gorffennol ac rwyf wrth fy modd â'i frwdfrydedd a'i ymdrech, ac mae'r bechgyn wedi cymryd ato hefyd. Dyma'r peth pwysicaf i mi.

Daeth ambell wyneb newydd i'r clwb, ac ambell wyneb cyfarwydd yn ôl i Gae Nant. Ar y cyfan, dwi'n meddwl ein bod ni'n dda iawn, yn griw solet.

Y tymor diwethaf, fe ges i drafferth i gael cysondeb yn y tîm, gan orfod newid yr 11 a oedd yn dechrau'r gêm bob wythnos. Mae hyn yn achosi problemau diddiwedd ar y cae, ond rydyn ni wedi gwella y tymor hwn, yn fy marn i. Mae angen gwella eto, rhaid dweud, ond rydyn ni'n mynd i'r cyfeiriad iawn.

Mae ein hymgyrch yn y gynghrair wedi bod yn gymysglyd iawn y tymor hwn. Yn anffodus, ein disgyblaeth oedd yr elfen siomedig ac fe gostiodd hynny'n ddrud iawn i ni o ran pwyntiau gwerthfawr.

Ar y parc, mae ein hymdrech yn y rhan fwyaf o gemau wedi bod yn wych, ychydig iawn o gwynion gen i (mae hynny'n siŵr o'ch synnu!) a chymaint yn well na'r tymor diwethaf. Dyna sydd ei angen arnom, mae angen adeiladu a gwella ein hunain bob wythnos.

Hoffwn i ddiolch i fy chwaraewyr am eu hymdrechion hyd yn hyn y tymor hwn, a gobeithio eu bod wedi mwynhau'r dathliadau yn fawr. Maen nhw'n griw gwych o hogiau a gobeithio y gallan nhw fy helpu i i ddod â rhywfaint o lwyddiant i'r clwb yn y flwyddyn newydd.

Hoffwn hefyd ddiolch i fy nhîm hyfforddi:

Tudur Morris, sy'n haeddu medal am ei amynedd gyda fi;

Roger Jones sydd wedi bod yn rhan annatod o'r sesiynau hyfforddi a'r ymarferion ar ddiwrnod gêm;

Jack Crompton, sydd wedi bod yn help enfawr pan oedd ar gael, a bob amser ar ddiwedd y ffôn pan oedd angen;

Sion Morris, a ddaeth i mewn fel fy hyfforddwr gôl-geidwaid, ac a chwaraeodd ran hanfodol mewn buddugoliaeth i ni yn y gynghrair; ac

Ethan Plumb am fod yno i mi ym mhob agwedd ar fy wythnos bêl-droed.

Diolch enfawr hefyd i'r pwyllgor – ein cadeirydd Clive Jones; ei rif 2, Mark Langford Jones; ein hysgrifennydd gwych, Chris Pengelly a'i wraig, ein trysorydd Jo.

I Rachel Langford Jones a'i chynorthwywyr sy'n bwydo ein cefnogwyr;

i Selina Humphreys sy'n golchi ein cit (dwi'n addo na fydd siorts gwyn yn ein cit nesaf);

i Mike McCoole am ei graffeg wych drwy gydol y tymor, mae'n gwneud gwaith anhygoel i ni.

Bob gêm, gartref neu oddi cartref, mae gennym ni griw gwych o gefnogwyr ffyddlon, diolch iddyn nhw am eu cefnogaeth aruthrol.

Diolch i Mark a Sam yn y Llew Aur, Llandyrnog am ein lluniaeth ar ôl y gêm a'u croeso cynnes.

Ac yn olaf, diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr. Diolch i chi gyd.

Hoffwn ddymuno blwyddyn newydd hapus a llewyrchus i bawb.

*Jimmy McNally*

# Tuesday Club

Mwynhaodd yr aelodau eu cinio Nadolig blynyddol yn y Cherry Pie, Melin y Wern, eleni eto. Cafwyd amser da yng nghwmni'n gilydd. Daeth David Snowdon-Jones, tad rheolwr y Cherry Pie a chyn-berchennog y Kinmel Arms yn Llandyrnog, aton ni am sgwrs ac roedd golwg dda iawn arno.

Gofalodd Simon Jones a'i staff amdanon ni yn wych, fel arfer, ac roedd y platiau glân yn brawf o'r blas a gafwyd ar y bwyd.





Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Mercher, 18 Ionawr yn yr Ystafelloedd Coco – croeso cynnes i aelodau newydd.

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Dyddio'r Griafolen



*Photo: J. Hulson*

Mae'r 'goeden pry cop', criafolen ym Mhenycloddiau, wedi dod yn adnabyddus iawn ar ôl ennill cystadleuaeth prif goeden Clawdd Offa yn 2021.

Gwahoddodd Jonathan Hulson, un o reolwyr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, Dr M.C. Bridge o Labordy Dendrocronoleg Rhydychen i gymryd samplau o'r goeden er mwyn ei dyddio.

Mae'n cymryd amser i goeden dyfu, felly er mwyn dyddio coeden, mae angen cymryd samplau mor agos at y ddaear â phosibl, oherwydd gall gymryd blynyddoedd lawer i goeden dyfu i fod yn uchder addas i gymryd samplau ohono.

Gan fod boncyff y griafolen yn wag, cymerwyd samplau o ddwy gangen fwyaf y goeden o'u gwaelodion (h.y. yn agos at y boncyff). Cafodd y samplau eu trin i ddangos eu cylchoedd . Dim ond o dan ficrosgop binocwlar roedd modd gwahaniaethu rhwng ffiniau'r cylchoedd. Dangosodd hyn fod 64 o gylchoedd gan un gangen, a 67 gan y llall.

Os yw'r cylchoedd yn rhai blynyddol, mae hyn yn awgrymu bod y canghennau wedi'u ffurfio tua 65–70 mlynedd yn ôl ar foncyff a oedd eisoes wedi'i hen sefydlu, ac a oedd yn fwy o lawer pan oedd y goeden yn iach. Mae hyn yn awgrymu bod y goeden yn debygol o fod yn gan mlwydd oed o leiaf, ac efallai'n hŷn. Mewn gwirionedd, gallai hon fod y goeden a nodir ar fap OS o 1870.

# Ceir trydan – da neu ddrwg?

Fel mae pethau ar hyn o bryd, gyda'r llywodraeth bresennol wedi ymrwymo i wahardd cynhyrchu cerbydau petrol a diesel newydd erbyn 2030, mae'n debyg y bydd yn rhaid i ni i gyd ystyried y dewis arall sydd ar gael – cerbydau trydan.

Gyda llaw, pan fyddwch chi wedi cyrraedd oedran penodol fel fi, mae 2030 bron iawn y penwythnos nesaf. Felly mae'n debyg y byddai'n well i mi drio'i gweld hi ac ystyried – ydw i'n mynd i brynu car trydan?

O ystyried ein bod yn wynebau cyfnodau heb drydan fel ag y mae – *blackouts*, does neb i weld wedi meddwl o ble y daw'r holl drydan ychwanegol. Mae'r galw yn debygol o fod yn fwy na'r cyflenwad oni bai bod camau llym yn cael eu cymryd i gynhyrchu rhagor o drydan. Ond fiw i mi ddefnyddio'r gair N.

Ac wrth gwrs, dydy'r Meistri Redrow, Taylor na Wimpey ddim yn cael cysylltu eu hystadau tai â nwy mwyach – gwresogi trydan i gyd.

Beth bynnag, yn ôl i'r dechrau – pa mor 'wyrdd' yw car trydan?

Darllenais erthygl ddiddorol iawn yn ddiweddar sy'n dangos faint o fwynau hybrin – *trace minerals* – sydd mewn car trydan, o'i gymharu â'r cerbydau sy'n cael eu gyrru gan danwydd ffosil:

- ◊ Copr –53kg o gopr mewn car trydan, dim ond 22kg mewn car petrol/diesel
- ◊ Cobalt: 13.3kg – dim mewn car petrol/diesel
- ◊ Lithiwm: 9kg – dim mewn car petrol/diesel
- ◊ Nicel: 39.9kg – dim mewn car petrol/diesel
- ◊ Manganîs: 24.5kg, 11.2KG mewn car petrol/diesel
- ◊ Graffit: 66.3kg – dim mewn car petrol/diesel

Mae pob un o'r uchod yn cael eu cloddio ac yn adnodd sy'n mynd i ddod i ben. Mae'r golygfeydd yn ddirdynnol o ferched a phlant yn cloddio am lithiwm gydag offer sylfaenol iawn mewn mwyngloddiau yn India. Oeddech chi'n gwybod bod pris lithiwm wedi treblu yn ystod y deuddeg mis diwethaf, gan ei wneud yn broffidiol iawn ac yn werth cymryd y risg? – neu ofyn i eraill gymryd y risg, wrth gwrs, ond faint yw'r gost?

Perchnogion y ddau fwynglawdd lithiwm mwyaf yw Albemarle a'r cwmni anferth o Tsieina, Tianqi. Mae'r ddau mewn ras i ddod yn berchen ar y mwyngloddiau llai ledled y byd, er mwyn eu mecaneiddio a'u gwneud yn fwy effeithlon.

Yn y cyfamser, ym Mhrydain mae Britishvolt ar beiriant cynnal bywyd ariannol. Cwmni yw hwn a sefydlwyd yn 2019 gan obeithio agor ffatri gwneud batris o'r radd flaenaf yn Blyth, Northumberland, ar gost o £3.8 biliwn. Mae'r peiriant ar fin cael ei ddiffodd, gan fod y cwmni heb dalu ei 2000 aelod o staff y mis diwethaf – staff sydd wedi'u cyflogi i wneud dim byd am dair blynedd, i bob pwrpas.

Y newyddion da, fodd bynnag, yw bod Green Lithium wedi dewis codi purfa lithiwm gwerth £600m yn Teesport, un o borthladdoedd mwyaf y Deyrnas Unedig. Bydd y burfa'n ailgylchu batris y dylai Britishvolt fod wedi'u gwneud, ond fyddan nhw ddim bellach.

Does ryfedd fod BMW, ar ôl yr ansicrwydd neu'r ffars hon, a dweud y gwir, wedi penderfynu cynhyrchu ei E Mini yn nhalaith Jiangsu yn Tsieina y flwyddyn nesaf, yn lle ym Mhrydain. Yn Tsieina bydd ganddyn nhw gyflenwad sicr o fatris.

Mi wna i orffen gyda ffaith ddiddorol am y cerbyd trydan cyflymaf sydd ar gael ar hyn o bryd. Fe gewch chi ei brynu am £2,000,000 – y Rimac Nevara, a adeiladwyd yn Croatia. Mae'n amlwg wedi'i anelu at y biliwnyddion, ond cofiwch fod 3300 biliwnydd yn y byd a 177 ym Mhrydain.



Dim ond 150 o'r ceir hyn maen nhw wedi'u gwneud, felly mae galw mawr amdanyn nhw

# Ceir trydan: parhad

gan yr oligarchiaid o Rwsia a'r biliwnyddion o'r Dwyrain Canol – dim ond i frolio bod ganddyn nhw un, mae'n siŵr.

Mae'r Nevera yn gallu cyflymu 0–60mya mewn 1.85 eiliad a 258mya yw ei gyflymder uchaf, ond am resymau diogelwch mae wedi'i gyfyngu i 250mya. Tybed be ydy'r rhesymeg am hynny? Ac... mae ganddo 1914bhp.

Beth mae hynny'n ei olygu? Wel, tua 120bhp sydd gan gar cyffredin ac mae gan eich Ferraris a'ch Lamborghinis – y *supercars* – rhwng 225bhp a 350bhp. Cymharwch y rhai â'r Nevara sydd â 1914bhp! Mae'r pŵer yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal rhwng y pedair olwyn – 478bhp enfawr i bob olwyn.

Cafodd ei brofi yn ddiweddar ar *Top Gear* ac roedd cyflymiad y car mor aruthrol, dywedodd y gyrrwr a chyflwynydd y gyfres, Chris Harris, sy'n yrrwr proffesiynol, iddo fod yn sâl am rai dyddiau ar ôl gyrru'r Nevera. Cafodd wybod gan feddygon fod hyn yn ôl pob tebyg oherwydd bod ei arennau wedi symud dros dro. Wir i chi.

Ffaith ddiddorol: y mis diwethaf, gwerthwyd llawer llai o geir trydan oherwydd nifer o ffactorau – pris trydan, pryder am faint bydd y batri'n para ar daith, bywyd batris a chost adnewyddu, diffyg pwyntiau gwefru cyflym.

Ond hei, mae gen i feic trydan ac mae'n wych. Ac roedd fy ffrind wedi cael benthyg car trydan tra roedd ei gar yn y garej. Roedd y seddi yn ei lyncu a gwichiodd ei wraig mewn pleser, felly pwy a ŵyr – efallai y bydda i'n newid fy meddwl!

*Bryn Davies*



*Yn arbennig i Bryn – tractor trydan!*

# Capel y Dyffryn



Bu plant yr Ysgol Sul yn cynnal eu hoedfa Nadolig flynyddol (uchod), a'r noson wedyn, daeth Sion Corn i'w parti i ddiolch iddyn nhw.



**Gwasanaethau**

| | | |
|---|---|---|
| 1 Ionawr | 10.00 | Gwasanaeth Bro ar-lein |
| 8 Ionawr | 10.00 | Oedfa'r Fro – Llanrhaeadr |
| 15 Ionawr | 9.45 | Cyfarfod Gweddi |
| 29 Ionawr | 11.00 | Parch. Andras Iago |



*Mae'r fainc ger groesffordd Clynog yn edrych yn Nadoligaidd iawn – diolch i Karen a Gerry Connell am ei haddurno, ac i Bryn am osod y goleuadau.*

# Taith dractorau Dyffryn Clwyd

Dymuna trefnwyr y daith dractorau ddiweddar ddiolch i'r tua saith deg o ferched a dynion dewr a ddaeth allan mewn tywydd garw a mwynhau'r Dyffryn, gobeithio – doedd o ddim ar ei orau! Diolch enfawr i Goleg Cambria, Llysfasi, am adael i yrwyr dewr y tractorau a'r Land Rovers ddadmer ar ganol y daith; i Alex a Pete am weithio'n galed dros stôf boeth yn fflipio cant o fyrgyrs a'u gwerthu; i Iona a'i thîm yn gweini te a choffi; ac i Morrisons, ABP Meats, a Bara Henllan am roddion a noddi'r bwyd.

Mae £1755 bellach wedi ei rannu rhwng Sefydliad DPJ ac Epilepsi Cymru.


Daeth Sefydliad DPJ i fod ym mis Gorffennaf 2016 ar ôl marwolaeth Daniel Picton-Jones. Nod Sefydliad DPJ yw cefnogi'r rhai yn y sector amaethyddol sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael. Ni chafodd Daniel ddiagnosis i'w broblemau iechyd meddwl ac roedd llawer o'i ffrindiau a'i deulu heb sylwi arnyn nhw. Penderfynodd ei weddw Emma sefydlu'r elusen i gefnogi iechyd meddwl gweithwyr yn y sector ffermio, y rhai sydd â'r un problemau â Daniel. Mae'r elusen yn rhoi'r gefnogaeth iddyn nhw doedd Daniel ddim yn gwybod sut i gael gafael arni. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.thedpjfoundation.co.uk. Hefyd ewch i epilepsi.cymru i gael gwybodaeth am yr elusen hon.




*Roedd Gaynor a John Barnett, Maes Clwyd, wedi mynd i wir ysbryd yr ŵyl wrth addurno'u tractor!*

# Rysáit

Daw rysáit y mis hwn o 'argraffiad newydd' *Mrs Beeton's Family Cookery*. Rhoddodd fy hen fam-gu hwn i fy mam-gu yn anrheg priodas yn 1925 (roedd y ddwy yn siarad Cymraeg, gyda llaw).




Un o nodweddion y rhifyn newydd oedd, '"Celfyddyd defnyddio'r sbarion": mae'r gri a'r angen i fod yn ddarbodus yn fwy heddiw nag erioed. Felly, mae nifer o ryseitiau ar gyfer defnyddio gweddillion bwyd wedi'u cynnwys.'

### Porc Mrs Beeton

**Cynhwysion:**

1 pwys o borc wedi'i goginio, yn oer
2½ owns o fenyn
2 lwy fwrdd o saws Caerwrangon – *Worcester*
2 lwy fwrdd o sos coch
1 llwy de o fwstard melyn
½ llwy de o sudd lemwn
Pupur cayenne, halen a phupur du

**Dull:**

Torrwch y cig yn dafelli bach a'u taenellu â halen ac ychydig bach o bupur cayenne.
Rhowch y menyn, y saws Caerwrangon, y sos coch, y sudd lemwn a'r mwstard mewn sosban.
Pan fydd yn eithaf poeth, ychwanegwch y tafelli o gig a gadewch iddyn nhw fwydo am ryw 15–20 munud.
Ysgydwch y sosban, neu trowch y cynnwys nawr ac yn y man, ond peidiwch, ar unrhyw gyfrif, a gadael i'r saws ferwi (meddai Mrs B!).
Digon i 3–4 o bobl.

*Anwen Davies*

# Gair gan ein Cynghorydd Sir

Croeso i 2023, bawb, gobeithio eich bod chi i gyd wedi cael Nadolig hyfryd. Gobeithiwn am weld dyfodol mwy disglair ac iach eleni. Roedd 2022 yn flwyddyn heriol mewn sawl ffordd – y wlad yn araf yn dod allan o bandemig sydd wedi cymryd llawer o fywydau ac wedi rhoi pwysau aruthrol ar wasanaethau ledled y byd, a'r rhyfel sy'n parhau yn Wcráin. Mae busnesau yng Nghymru wedi dioddef gyda phrinder staff ac mae'r cynnydd mewn costau ynni sy'n effeithio arnon ni i gyd yn achosi llawer o bryder.

Braf oedd gweld sioe Flodau a Chynnyrch Llandyrnog wedi'i atgyfodi y llynedd ac mae'r Gymdeithas Hanes hefyd i'w gweld yn ffynnu. Rhaid i mi ddiolch yn arbennig i dîm *Llais Llandyrnog* am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi i gyd ar newyddion a digwyddiadau lleol. Sut bydden ni'n dod i ben hebddo? A hefyd i deulu Bryn Ffolt am eu hymroddiad i'n pentref.

Fel eich Cynghorydd Sir rwy'n eistedd ar sawl pwyllgor, o Gynllunio i Graffu Cymunedau, ac yn aelod o'r Cynghorau Cymuned lleol. Rwyf hefyd yn ymwneud â phenderfyniadau o ran cyllideb y sir. Mae'n bosibl dydyn nhw ddim cynddrwg â'r disgwyl ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, ond mae 2023–24 yn edrych yn heriol iawn ac mae penderfyniadau anodd o'n blaenau. Os ydych chi'n teimlo yr hoffech chi gael sgwrs â fi unrhyw bryd, ynglŷn ag unrhyw bwnc sy'n ymwneud â'r cyngor, cysylltwch â fi.

Yn Llandyrnog rydyn ni'n mynd i weld rhai newidiadau gyda siop gymunedol lwyddiannus, gobeithio, a chryn dipyn o gartrefi newydd o'r datblygiadau o gwmpas y pentref. Byddwn fel pentref yn cael cronfa gymunedol fawr gan y datblygiadau hyn i wella cyfleusterau mewn mannau agored cymunedol, fel Cae Nant.

Mae rhywfaint o waith wedi'i wneud ar y ffyrdd drwy'r pentref y llynedd ac mae rhywfaint o waith ar ffyrdd gwledig a gwaith draenio wedi'i gynllunio ar gyfer 2023. Mae gwella'r band eang lleol yn ôl ar yr agenda eto – cadwch olwg ar y *Llais* am y newyddion diweddaraf.

Un cais arbennig os gwelwch yn dda: fel y gwyddon ni oll, mae ein gwasanaethau brys o dan bwysau aruthrol ac mae amser ymateb ambiwlansys yn hynod o araf, felly byddwch yn ofalus iawn wrth ofalu amdanoch eich hun. Gofalwch am eich cymdogion hefyd.

Dymunaf Flwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

*Merfyn Parry*


**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*







# Hanesion Hazel

Mae hwyl tymor y gwyliau wedi dod i ben, ac mae'r gaeaf yma, mae hynny'n sicr. Ond dydy mis Ionawr ddim mor dawel ag y byddech chi'n ei gredu yn yr ardd ac mae digon i'w wneud i'n cadw ni'n brysur.

Mae'n bryd gofalu am y pridd yn eich gardd. Taenwch ddail a gasglwyd yn yr hydref dros unrhyw bridd noeth i'w amddiffyn, neu rhowch gnu drosto i gadw'r dail rhag chwythu i ffwrdd. Wrth i'r bresych gael eu bwyta, dwi'n rhoi unrhyw ddail a choesynnau i'r ieir sydd wrth eu boddau gyda rhywbeth 'gwyrdd' i bigo arno yn ystod misoedd y gaeaf. Mae hefyd yn 'fis tail', gan fy mod yn taenu tail ceffyl sydd wedi pydru'n dda (mae gennyf gyflenwad di-ben-draw) dros bopeth. Mae'n waith caled ond mae'n eich cynhesu hi ar fore rhewllyd. Mae robin goch yn ymuno â mi bob amser ar fy nheithiau i'r domen dail, oherwydd wrth i mi gloddio ac aflonyddu ar y domen mae mwydod blasus yn dod i'r golwg, ac mae'r robin goch yn dod i lawr i fachu byrbryd. Weithiau bydd yr ieir yn ymuno â fi – maen nhw'n sleifio heibio i fi pan fydda i'n gadael y giât yn agored ac yn neidio ar y domen. Maen nhw'n mynd ati i grafu yn y gobaith o ddod o hyd i rywbeth cyffrous a gallu brolio i'r rhai sydd yr ochr arall i'r ffens, 'Wwww, drychwch be dwi wedi'i gael!'

Pan mae hi'n oer, mae adar yr ardd yn cael anhawster i ddod o hyd i fwyd. Yr adeg hon mae angen inni ddal ati i fwydo'r adar a gofalu bod digon o fwyd ar y bwrdd iddyn nhw. Rwy'n gwneud fy nghacennau had adar fy hun – mae hyn yn ffordd dda o arbed arian hefyd. Gall y cynhwysion gynnwys hadau adar o safon, rhesins cymysg (dydw i ddim yn rhoi'r rhain yn fy un i gan fod cŵn gen i a dydyn nhw ddim yn addas i gathod na chŵn), corn cymysg (peidiwch â dweud wrth yr ieir 'mod yn defnyddio eu corn nhw) , caws wedi'i gratio, siwed neu lard, ceirch uwd sych ac ychydig o hen afalau o'r storfa wedi'u torri'n fân (peidiwch â dweud wrth Bob). Rwy'n cymysgu'r cyfan i'r braster sydd wedi toddi ac wedyn yn llenwi hen botiau iogwrt mawr ac yn eu rhoi yn yr oergell i galedu. Ar ôl iddyn nhw galedu, gwnewch dwll yng ngwaelod y potiau a rhowch linyn drwy'r twll i'w hongian y tu allan. Mae'n syndod pa adar y byddwch chi'n eu denu. Doeddwn i ddim yn disgwyl gweld crëyr glas – hedfanodd ar draws y cae a glanio yn yr ardd. Efallai ei fod wedi gweld anifail bach, oherwydd does gen i ddim pysgod yn fy ngardd.

Mae mynd allan i'r awyr iach a gwneud rhywbeth corfforol hefyd yn wych i'ch iechyd ac i'ch lles. Yn ystod y dyddiau byr, mae'n dda i ni gyd fynd allan yng ngolau'r haul – mae'n codi eich hwyliau, yn lleihau straen ac yn rhoi ychydig o 'amser i mi' i chi. Hyd yn oed os dydych chi ddim am wneud dim byd egnïol, rwy'n argymell gwylio'r machlud a'r wawr. Mae'r rhain yn wych yn Nyffryn Clwyd. Ar fore neu noson glir yr adeg hon o'r flwyddyn, mae'r golau a'r lliwiau'n ddwys ac yn hudolus i'w gwylio. Mae fy mrawd, sy'n byw ym Mryste, yn dweud bod gennym ni 'lawer o awyr' yma.



Wrth gwrs, ar ôl yr holl ymdrech ac ymarfer corff, mae mynd yn ôl i mewn, eistedd wrth y tân a sipian ychydig o gawl cartref poeth yn hyfryd. Brocoli a chaws Stilton yw fy ffefryn i.

*Hazel*

# Addunedau'r Flwyddyn Newydd

Wrth feddwl am y Flwyddyn Newydd, y peth cyntaf sy'n ein taro ni yw gwneud addunedau. Dydy'r rhain yn ddim byd newydd ac maen nhw'n tarddu o gyfnod y Babyloniaid, tua 4,000 o flynyddoedd yn ôl. Roedden nhw'n arfer dathlu'r Flwyddyn Newydd am 12 diwrnod ac Akitu oedd enw'r ŵyl. Bydden nhw'n coroni brenin newydd adeg y Flwyddyn Newydd ac yn gwneud addunedau i'w duw i glirio eu dyledion, os oedd ganddyn nhw rai.

Roedden nhw'n credu, petaen nhw'n cadw at eu haddunedau, y byddai eu duw yn rhoi popeth da iddyn nhw yn y flwyddyn i ddod.

Roedd hyd yn oed y Rhufeiniaid hynafol yn dilyn y ddefod o wneud addunedau. Roedden nhw'n arfer offrymu aberthau i'w duw ac yn gwneud addunedau i'w bendithio er daioni yn y flwyddyn i ddod.

Mae Cristnogion hefyd yn ystyried y Flwyddyn Newydd fel diwrnod i gywiro camgymeriadau eu gorffennol a phenderfynu bod yn bobl well yn y flwyddyn sydd i ddod.

Waeth pa mor fodern rydyn ni, rydyn ni'n dal i wneud addunedau Blwyddyn Newydd.

**Y deg adduned sy'n cael eu torri amlaf:**

1. Colli pwysau a dod yn heini
2. Rhoi'r gorau i ysmygu
3. Dysgu rhywbeth newydd
4. Bwyta'n iachach a mynd ar ddeiet
5. Lleihau dyledion a chynilo arian
6. Treulio mwy o amser gyda'r teulu
7. Teithio
8. Bod o dan lai o straen
9. Gwirfoddoli
10. Yfed llai

**Yn ôl y wefan statista.com, yr addunedau mwyaf poblogaidd ar gyfer 2022 yn y Deyrnas Unedig oedd:**

1. Gwneud mwy o ymarfer corff 43%
2. Bwyta'n iachach 43%
3. Colli pwysau 40%
4. Byw yn fwy darbodus 24%
5. Yfed llai o alcohol 20%
6. Treulio llai o amser ar gyfryngau cymdeithasol 19%
7. Rhoi'r gorau i ysmygu 17%

Rhown y gair olaf i Gwen Butler, un o gydlynwyr Llais Llandyrnog ac aelod o'r pwyllgor, a'r unig un sy'n ddigon dewr i ddatgan ei bwriad:

Fy adduned i erioed yw gwneud adduned gadarn i beidio â gwneud Adduned Blwyddyn Newydd – o leiaf wedyn fydda i ddim wedi ei thorri erbyn mis Chwefror. Fodd bynnag eleni, gan fy mod yn un sy'n oedi cyn gwneud rhywbeth, rwyf wedi penderfynu mai fy mantra i fydd "jyst gwna fo". Gobeithio na fydda i'n oedi'n rhy hir cyn ei ddefnyddio!




Mae ymgyrch Gwylio Adar yr Ardd yr RSPB yn dechrau ddydd Gwener, 27 Ionawr. Mae hwn yn ddigwyddiad blynyddol sy'n cofnodi nifer yr adar gardd sy'n glanio mewn gerddi neu fannau gwyrdd lleol ledled y DU. Mae'n hwyl, am ddim ac i bawb, a does dim angen gardd arnoch i gymryd rhan – gallwch gyfrif adar o'ch balconi, neu o'ch parc lleol. Cofrestrwch i gael eich canllaw rhad ac am ddim a dewch i ni wylio adar gyda'n gilydd 27–29 Ionawr.

Sut i gymryd rhan yn Gwylio Adar yr Ardd:


1. Gwyliwch yr adar o'ch cwmpas am awr
2. Cyfrwch faint o bob rhywogaeth o adar sy'n glanio yn eich ardal chi
3. Ewch ar-lein a dywedwch wrth yr RSPB beth rydych chi wedi'i weld.

Felly cofrestrwch nawr ar www.rspb.org.uk!

# Ysgol Bryn Clwyd







Roedd project y llyfrau â darluniau'n llwyddiant ysgubol. Roedd y babanod cymaint wrth eu bodd â nhw, aethon nhw ati i ysgrifennu eu llyfrau eu hunain a'u rhoi i'r dosbarth iau yn anrhegion.





Cafodd y plant hoe fach i chwarae yn y parc ar ôl danfon y llyfrau.



# Ysgol Bryn Clwyd



Bu’r plant a’r athrawon yn gweithio’n galed iawn i greu eu sioe Nadolig.



Diolch i Mrs Tynan am y cinio Nadolig hyfryd.



Cafodd pawb hwyl garw yn gwylio’r pantomeim yn y Rhyl!




Codwyd £240 ar stondin ym marchnad Nadolig Rhuthun i godi arian ar gyfer trip yr ysgol yn yr haf. Diolch i bawb a gyfrannodd eitemau i’w gwerthu ac i Miss Elin a Mrs Woodward am fod ar y stondin.

**CARPET SALES & INSTALL**
**Home Choose Carpets**
**Quality Sampling Service**
**FREE Estimates**
**CARPET & RUG CLEANING**
**Call Andy**
**07900 907253**
**wetordrycarpetcleaning.com**

# Gair gan yr offeiriad

Beth sydd gennym i edrych ymlaen ato yn 2023? Bob blwyddyn mae llawer o bobl yn gwneud addunedau Blwyddyn Newydd. Addunedau sy'n tueddu i beidio â bara'n hir o gwbl. Pa addewidion parhaol sydd yn ein bywydau ni? Y rhai rydyn ni'n eu cadw ac yn aros yn driw iddyn nhw, pa anawsterau bynnag sy'n digwydd ac fel petaen nhw'n ceisio gwneud i ni newid ein meddwl. Addunedau priodas yw'r rhai mwyaf cyffredin mae pobl yn eu gwneud ond tybed faint o bobl sy'n ymrwymo iddyn nhw'n llwyr, gan ddisgwyl anrhydeddu a pharchu'r person hwnnw, ei gadw a'i gynnal, yn glaf ac yn iach, tra byddan nhw'n byw?

Fel eglwys rydyn ni wedi wynebu llawer o feirniadaeth am fod mor araf i gytuno ar briodi pobl o'r un rhyw mewn priodas sanctaidd. Yn yr Eglwys yng Nghymru rydyn ni rŵan yn gallu cynnal gwasanaethau bendithio i gyplau o'r un rhyw. Felly cyn belled â bod pobl yn priodi mewn seremoni sifil yn gyntaf, mae'n bosibl cael bendith priodas sy'n cyfateb i briodas eglwys heterorywiol pryd bynnag y maen nhw'n dymuno. Mae'r newid wedi digwydd a gan fod Esgob Mynwy, Cherry Van, yn agored am fod mewn perthynas un rhyw ymroddedig hirdymor, mae hyn yn rhagor o help i atgyweirio'r ddelwedd allanol ohonon ni'n ymgodymu â hyn fel pobl yr ysgrythur hynafol.

Yn yr ysgrythurau hynny, yn yr Hebraeg a'r Roeg wreiddiol, y mae ychydig o fathau gwahanol o eiriau am y syniad o addewid. Yr addewid mwyaf oedd cyfamod Duw i bob un ohonom, sydd wedi'i weu drwy holl lyfrau'r Beibl. Maen nhw'n dechrau gydag Abraham ac yn cael eu gwireddu yn y digwyddiadau sy'n tystio i Iesu orchfygu marwolaeth, gan felly ein gwahodd yn rasol i gyd i fywyd tragwyddol.

Dyma addewid o lyfr yr Hebreaid:
Pan wnaeth Duw addewid i Abraham, aeth ar ei lw y byddai'n gwneud beth roedd wedi'i addo. Rhoddodd ei gymeriad ei hun ar y lein! – doedd neb mwy iddo allu tyngu llw iddo! A dyma ddwedodd e: "Dwi'n addo dy fendithio di a rhoi llawer iawn o ddisgynyddion i ti." Ac felly, ar ôl disgwyl yn amyneddgar, dyma Abraham yn derbyn beth roedd Duw wedi'i addo iddo.
Pan mae pobl yn tyngu llw maen nhw'n gofyn i rywun mwy na nhw eu hunain wneud yn siŵr eu bod yn gwneud beth maen nhw'n ei addo. Mae'r llw yn eu rhwymo nhw i wneud beth maen nhw wedi'i ddweud, ac yn rhoi diwedd ar bob dadl. Oherwydd bod Duw am i bobl wybod ei fod e ddim yn newid ei feddwl ac y byddai'n gwneud beth roedd wedi'i addo iddyn nhw, rhwymodd ei hun gyda llw.

Felly mae Duw wedi addo, ac mae wedi mynd ar ei lw – dau beth fydd byth yn newid oherwydd ei bod yn amhosib i Dduw ddweud celwydd. Felly, rydyn ni sydd wedi dianc ato yn gallu bod yn hyderus. Rydyn ni'n gallu dal gafael yn y gobaith mae wedi'i roi i ni. Mae'r gobaith hwn yn obaith sicr – mae fel angor i'n bywydau ni, yn gwbl ddiogel. Mae Iesu wedi mynd o'n blaenau ni, tu ôl i'r llen, i mewn i'r nefoedd, sef y cysegr mewnol lle mae Duw. Ydy, mae Iesu wedi mynd i mewn yno ar ein rhan ni. Fe ydy'r un "sy'n offeiriad am byth, yr un fath â Melchisedec."

Mae addewid Duw yn real ac yn dragwyddol. Mae wedi sefyll prawf sawl system dros lawer iawn o amser ac mae'n ein gwahodd i wynfyd bywyd tragwyddol a sicrhawyd gan Iesu.

Gobeithio y cewch chi 2023 da ac iach! Bydded i Dduw eich bendithio ym mhob ffordd eleni. Byddai'n braf eich gweld yn yr eglwys lle mae croeso i bawb gael eu cynnal a'u meithrin yn ein haddunedau i ni'n hunain a'u meithrin yn ein haddewid gan Dduw i fyw bywyd llawn gartref gyda ni'n hunain er mwyn bod yn fendith i eraill.

*Y Parch. Martin Pritchard,*
*Ardal Genhadu Dinbych*

# Dewch i gyfarfod â'ch Cynghorydd Cymuned

**Hazel Wright**

Roedd Nain yn dod o'r Iseldiroedd ac ymgartrefodd y teulu yn ne ddwyrain Lloegr pan gyfarfu fy mam â fy nhad yng Nghaint adeg y rhyfel. Ces i fy ngeni yn Bromley a symudon ni i Lerpwl yn y 70au cynnar. Yna prynodd fy rhieni dyddyn gan Gyngor Sir Ddinbych a symudon ni i Ogledd Cymru ym 1976. Mae'n debyg bod fy mrawd yn gyrru o gwmpas Gogledd Cymru yn chwilio am eiddo addas i fy rhieni ei brynu fel bwthyn gwyliau ac aeth heibio Lodge Farm a oedd ar fin bod mewn arwerthiant. Gwnaeth fy rhieni gais dan sêl a buon nhw'n llwyddiannus. Doedd y tŷ ddim yn dŷ haf am yn hir gan eu bod yn awyddus i symud i fyw i gefn gwlad.

Rwyf wedi mynychu ysgolion yn Ninbych a Rhuthun, gan ddechrau yn Ysgol Howells, Ysgol Santes Ffraid, ac yn olaf Ysgol Brynhyfryd.



Gweithiais yn Lerpwl am 10 mlynedd ar ôl graddio nes i mi benderfynu symud yn ôl i Landyrnog yn barhaol, gan gael swydd yn MHC Highfield Park. Pan ddirywiodd iechyd fy rhieni, gadewais y gwaith i ofalu amdanyn nhw, nes i'r ddau fynd i gartref gofal. Rwyf wastad wedi gweithio'n lleol – Dinbych a Rhuthun – wedi'r cyfan, mae Dyffryn Clwyd yn lle mor brydferth i fyw ac i weithio ynddo.

I ddechrau gofynnwyd i mi ymuno â Chyngor Cymuned Llandyrnog i gynrychioli Highfield Park, ac rwyf wedi bod yn aelod ers blynyddoedd lawer. Rwy'n mwynhau bod yn rhan o'r gymuned a chyfrannu at y pentref mewn unrhyw ffordd. Am flynyddoedd lawer roeddwn yn Ysgrifennydd y Neuadd Bentref a'r Sioe Flodau.

Rydw i wedi mwynhau gweithgareddau awyr agored erioed yn sgil byw mewn lle mor wych – mynd â'r cŵn  am dro a mynd ar gefn fy ngheffyl ar Fryniau Clwyd. Mae rhywbeth i'ch cadw'n brysur bob amser wrth fyw ar dyddyn ac mae'r ardd yn lle gwych. Yn ddiweddar dechreuais gyfrannu erthygl fisol reolaidd i gylchgrawn *Llais Llandyrnog* – Hanesion Hazel – lle gallwch gael hanes y digwyddiadau yn Lodge Farm.

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Catherine ac Ed Howarth, Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams.


hg web designs

rydym ni'n creu... we create....

gwefannau - websites!

www.hgwebdesigns.co.uk

01678 520882
07984 511164

Gwefannau proffesiynol, dwyieithog ar gyfer busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol.

Affordable, bilingual and professional websites for local businesses, organisations and schools.

hannah@hgwebdesigns.co.uk

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Rhagfyr Cyngor Cymuned Llandyrnog

⇒ Cafwyd gwybod bod Llandyrnog heb fod yn llwyddiannus gyda'r cais am arian i gynnal arolwg o anghenion cymunedol trwy Cadwyn Clwyd.

⇒ Diolchwyd i'r rhai fu'n helpu gyda'r goeden Nadolig ac yn arbennig i David Weyman a aeth i nôl y goeden o Lanfair TH, a rhoi ei amser ar fore Sadwrn i'w chodi a'i haddurno. Hefyd i Will a Shay Parry am osod y goleuadau ar neuadd y pentref.

⇒ Er bod y golau ym maes parcio Maes Llan bellach yn gweithio, does dim ymateb wedi bod gan Gyngor Sir Ddinbych ynglŷn â'r ffordd fynediad. Fodd bynnag, mae'r Cynghorydd Parry wedi cael gafael ar darmac wedi'i ailgylchu a fydd yn trwsio dros dro y tyllau. Gyda chymorth eraill bydd yn gwneud ymdrech i gwblhau'r gwaith dros gyfnod y Nadolig.

⇒ Bydd y cynllun datblygu lleol newydd sy'n ymdrin â safleoedd adeiladu posibl ar gael ar ffurf drafft yn gynnar yn 2023 a bydd yn cael ei ddosbarthu ar gyfer sylwadau arno.

⇒ Bydd y Cynghorydd Borthwick yn dosbarthu taflenni yn fuan i weld a oes diddordeb mewn sefydlu gweithdy sgiliau digidol sylfaenol yn yr Ystafelloedd Coco, ar ôl iddi lwyddo i sicrhau tiwtor ar gyfer y gwaith.

⇒ Nid oedd y Cyngor yn gallu cefnogi cais i ddymchwel Pen Palmant – nid oedd digon o wybodaeth ar gael i wneud penderfyniad cadarn. Nid oedd ddatganiad i gyfiawnhau dymchwel yr adeilad a mynegwyd pryderon difrifol am effaith y datblygiad hwn ar eiddo cyfagos.

⇒ Mae cais wedi dod am sylwadau ynglŷn ag estyniad deulawr i Gwynfryn. Gofynnodd y cyngor am ragor o amser i ystyried y mater.

⇒ Mae pryderon wedi eu codi am wasanaeth gofalu am gŵn yn Y Wern a bydd y mater yn cael ei drosglwyddo i Gyngor Sir Ddinbych i ymchwilio iddo ymhellach. Mae rhai trigolion hefyd wedi cwyno am y sŵn. Mae hyn yn cael ei ystyried yn fater ar wahân ac maen nhw'n cael eu hannog i riportio'r mater yn unigol. Bydd cyswllt yn cael ei anfon ymlaen at yr unigolion dan sylw.

### Y newyddion diweddara am y ffatri

Mae'r sefyllfa yn y ffatri yn weddol dawel ar hyn o bryd. Mae'n siŵr bod y trigolion wedi sylwi bod ffensys newydd o flaen y safle, sydd wedi gwella ei olwg yn fawr. Mae'r cwmni wedi gwneud cais cynllunio ar gyfer estyniad arfaethedig ac addasiadau i swyddfa bresennol. Roedd y penderfyniad ynglŷn â'r cais i fod i ddod erbyn dechrau'r mis hwn.

Mae oedi wedi bod cyn dechrau gweithredu oherwydd cyflenwad peiriannau wedi'i rwystro yn sgil y rhyfel yn Wcráin. Serch hynny, y gobaith yw dechrau cynhyrchu yn Llandyrnog yn ddiweddarach eleni.

